- 10.3. O achos cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol Covid-19, nodwch fod hi ddim yn bosib archwilio'r dogfennau yn Neuadd y Frenhines heb gymeradwyo ymaen llaw. I drefnu i archwilio'r dogfennau, cysylltwch gyda Swyddog Cyswilt y Cyhoedd y Cynllun os gwellwch yn dda.

### Swyddog Cyswilt y Cyhoedd:

Martin Gallimore  
Ffon: 07923 887119  
Epost: [a40enquiries@arup.com](mailto:a40enquiries@arup.com)

### Man Adneuo:

Neuadd y Frenhines,  
44 Stryd Fawr  
Arberth,  
SA67 7AS.

- 10.4. Gellir cael copïau ychwanegol o'r wybodaeth gyhoeddiedig gan Lywodraeth Cymru.

8.5. Wrth lunio'r cynigion, rhoddwyd ystyriaeth i amharu ar hawliau'r holl rai hynny sydd â buddiant yn y tîr sy'n cael ei effeithio gan y Gorchymyn Prynu Gortodol ac y byddai'r Cynllun yn effeithio arnynt fel arall.

## 9. PWERAU I ADEILADU'R CYNLLUN

9.1. Byddai'r Cynllun yn cael ei awdurdodi a'i adeiladu gan ddefnyddio pŵerau Gweinigion Cymru fel Awdurdod Prifffyrdd yn unol â Deddf Prifffyrdd 1980 yn unol a'r Ddeddf Caffael Tîr 1981.

9.2. Byddai'r pŵerau i adeiladadu'r rhannau newydd o gefnffordd a thynnu statws gefnffordd rhannau o'r gefnffordd presennol yn cael eu rhoi drwy wneud 'Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwau (yr A40) (Gweilliant Penblewin i Groestfordd Maencoch a Thynnu Statws Cefnffordd) 202-', sydd eisoes wedi'i gyhoeddi ar ffurf ddrafft.

9.3. Byddai'r pŵer i gau; newid; gwella prifffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus, a mynedfeydd preifat; ac adeiladu prifffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus, a mynedfeydd preifat newydd yn cael ei roi drwy'r 'Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwau (yr A40) (Gweilliant Penblewin i Groestfordd Maencoch) (Ffyrdd Ymyl) 202-', sydd eisoes wedi'i gyhoeddi ar ffurf ddrafft.

9.4. Fel yr Awdurdod Prifffyrdd ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru, mae gan Weinidogion Cymru rym i ymgymryd â gwella rhannau i'r gefnffordd presennol (o dan adran 62 Deddf Prifffyrdd 1980) ac i adeiladu prifffyrdd newydd (o dan adran 24 o'r Ddeddf Prifffyrdd 1980).

9.5. Bydd y Gorchymyn Prynu Gortodol ddrafft hwn, os caiff ei wneud, yn galluogi Gweinigion Cymru i gaffael yr holl dir a'r hawliau dros y tîr sy'n angenrheidiol ar gyfer y Cynllun arfaethedig. Wrth lunio'r Cynning arfaethedig, rhoddwyd ystyriaeth i amharu ar hawliau'r holl rai hynny sydd â buddianau yn y tîroedd perthnasol a/neu y byddai'r Cynllun yn effeithio arnynt fel arall.

- 8. YR ACHOS DROS BRYNU GORFODOL**
- 8.1. Cyhoeddi y Gorchymyn Pryn Gorfodol (CPO) drafft o dan Ddeddf Prifffordd 1980 a Deddf Caffael Tîr 1981. Cyhoeddi y Gorchymyn Pryn Gorfodol drafft mewn cysylltiad â'r Gorchymynion drafft canlynol:
- Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwau (Yr A40) (Gwelliant Penblewin i Groesffordd Maencoch) (Ffyrdd Ymyl) 202-
  - Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwau (Yr A40) (Gwelliant Penblewin i Groesffordd Maencoch a Thynnu Statws Cefnffordd) 202-
- 8.2. Mae'r Gorchymyn Pryn Gorfodol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y tîr a'r hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Cynllun yn cael eu caffael yn amserol, ac er mwyn gallu adeiladu mesurau lliniaru amgylcheddol priodol a ffyrdd mynediad amgen i dir y mae'r Cynllun arfaethedig yn effeithio arno.
- 8.3. Bydd y Gorchymyn Pryn Gorfodol, os caiff ei wneud, yn newid safle rhai pwysntiau mynediad. Byddai'r Gorchymynion drafft, wedi'u gwneud a gyda'u gilydd, yn galluogi adeiladu mesurau lliniaru amgylcheddol priodol a ffyrdd mynediad amgen i dir y mae'r Cynllun arfaethedig yn effeithio arno.
- 8.4. Ystyri'r mai'r tîr a amlygir yn y Gorchymyn Pryn Gorfodol yw'r lleiaf sydd ei angen i adeiladu ac yna gweithredu a chynnal a chadw'r Cynllun, ynghyd â darparu a chynnal a chadw'r mesurau lliniaru amgylcheddol, sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi, lleihau ac unioni effeithiau niweidiol arwyddocaol.

- 7.5. Ym Mhenblewin, byddai'r Cynllun yn ailymuno â chefnffordd yr A40 wrth gylchfan fwy o faint. Byddai'r gylchfan fwy o faint yn ymestyn ymhellach i'r gogledd a'r gorllewin na'r gylchfan bresennol a byddai'n gwasanaethu ceffnffordd yr A40, yr A478 a'r cysylltiad ceffnffordd ag Ardal Orffwys Penblewin. Yn ogystal, byddai angen chweched traich ar gyfer cysylltiad byr newydd â'r A40 y tynwyd ei statws ceffnffordd i'r gorllewin o Groesffordd Maencoch.
- 7.4. Byddai'r drosbont arfaethedig yn cludo'r B4313 Redstone Road ar draws y gefnffordd arfaethedig (Ch 0+570), a fyddai mewn trychiad hyd at 7m o ddyfnder yn y fan honno. Byddai'r bont yn ddigon llydan i gludo'r ffordd bresennol gyda lleiniau ymyl ffordd wedi'u caledu i fod yn gyson â lled bresennol y ffordd. Byddai'r bont yn strwythur un rhychwant gydag ategweithiau, wedi'i hadeiladu o goncrit gyda thrastiau concrit rhag-gastiedig.
- Trosbont ar gyfer y B4313 Redstone Road (Arberth i Fethesda)
- Byddai'r drosbont arfaethedig yn cludo'r B4313 Redstone Road ar draws y gefnffordd arfaethedig (Ch 0+570), a fyddai mewn trychiad hyd at 7m o ddyfnder yn y fan honno. Byddai'r bont yn ddigon llydan i gludo'r ffordd bresennol gyda lleiniau ymyl ffordd wedi'u caledu i fod yn gyson â lled bresennol y ffordd. Byddai'r bont yn strwythur un rhychwant gydag ategweithiau, wedi'i hadeiladu o goncrit gyda thrastiau concrit rhag-gastiedig.
- Byddai'r drosbont arfaethedig yn cludo'r B4313 Redstone Road ar draws y gefnffordd arfaethedig (Ch 0+570), a fyddai mewn trychiad hyd at 7m o ddyfnder yn y fan honno. Byddai'r bont yn ddigon llydan i gludo'r ffordd bresennol gyda lleiniau ymyl ffordd wedi'u caledu i fod yn gyson â lled bresennol y ffordd. Byddai'r bont yn strwythur un rhychwant gydag ategweithiau, wedi'i hadeiladu o goncrit gyda thrastiau concrit rhag-gastiedig.
- bach wrth oddeutu Ch0+860. Yma, byddai'r Cynllun yn newid yn raddol o drychiad i arglawdd i groesi tîr is a feddianir gan goetr. Byddai'r arglawdd yn parhau tua'r dwyrain, gan groesi dau gwrs dŵr bach arall, a byddai'r Cynllun yn troi'n raddol i'r dde gan barhau i Ch.1+450. Wrth Ch 1+400, byddai'r arglawdd yn dod i ben a byddai'r Cynllun yn parhau tua'r dwyrain mewn trychiad hyd at 8m o ddyfnder wrth iddo ddechrau dringo tuag at Gylchfan Penblewin wrth Ch 1+760, sydd ar lefel y ddaear yn fras.

**6. AMCANION Y CYNLLUN**

6.1. Gan ystyried yr angen i fynd i'r afael â'r problemau ac yn unol â pholisi cenedlaethol a lleol (er enghraifft, nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)), nodwyd wyth o amcanion penodol i'r Cynllun:

1. Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafniadaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth.
2. Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlfordd, Ardal Fenter Dyffordd y Ddau Gledau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Fentro yng ngorllewin Cymru.
3. Lleihau hollti cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau.
4. Gwella diogelwch Cyffordd Croesffordd Maencoch (gan gynnwys diogelwch canfyddedig) a lleihau nifer a diffrifoldeb gwrthdrawiadau.
5. Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach.
6. Cyflawni cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafniadaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanoiffannau trafniadaeth allweddol.
7. Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwyso gwastraff a charbon.
8. Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafniadaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol.

**7. Y CYNLLUN ARFAETHEDIG**

- 7.1. Byddai 1.76km o Gefnffordd yr A40 yn cael ei gwella gan ddarparu dwy lôn tua'r gorllewin, i ganiatáu ar gyfer goddiweddwyd, ac un lôn i'r cyfeiriad arall. Mae'r cadwyneddau (Ch) wedi'u marcio ar y cynllun Trefniant Cyffredinol mewn rhanladau 100m.
- 7.2. Byddai'r Cynllun yn dechrau oddutu 550 metr i'r gorllewin o Groesffordd Maencoch (Ch 0+000), lle mae'r A40 bresennol yn mynd i fyny heibio i Sodston Lodge. Byddai'r Cynllun yn gadael llinell yr A40 bresennol wrth Sodston Lodge ac yn mynd i'r dde yn raddol. Wrth oddutu Ch 0+400, byddai'r ffordd yn croesi cwrs dŵr coediog bach ar arglwydd hyd at 4 metr o uchder. Yna, byddai'n dechrau mynd i lawr ar raddiant ysgafn am oddutu 1km, gan fynd i mewn i drychriad hyd at 7 metr o ddyfnlder trwy gefn Maencoch wrth Ch 0+500. Byddai adeiladau ym Maencoch ar ochr ogleddol y Cynllun a Chartref Gotal Blaenmarlais i'r de. Byddai'r B4313 Redstone Road yn croesi'r A40 ar bont arfaethedig wrth Ch 0+570 ac yna'n ymuno â'r A40 y tynwyd ei statws cefnffordd ar ochr ddwyreiniol Groesffordd Maencoch. Byddai ffordd bresennol yr A40 y tynwyd ei statws cefnffordd yn dod yn ffordd leol sy'n ymestyn o Groesffordd Maencoch i glychfan Penblewin.
- 7.3. O Ch 0+570 i Ch 0+800, byddai'r Cynllun, sy'n mynd i lawr o hyd, yn newid o drychriad i arglwydd ac yn parhau i droi'n raddol tua'r chwith i groesi cwrs dŵr

4.45. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wrthi ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd (2018-2031). Cynaliwyd ymgynghoriad hyd at 13 Mawrth 2020 ar y Materion sy'n Arwain at Newidiadau hyd at 13 Mawrth 2020. Mae'r CDL wedi'i Adnueo yn datgan mai'r strategaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol yw gwella hygyrchedd a'i hyrwyddo trwy ddulliau priodol ar gyfer y bobl sy'n gweithio, yn byw, yn gortffws ac yn chwarae yno, ar yr un pryd â lleihau'r angen i deithio mewn ceir.

## 5. YMGYNGHORIADAU

5.1. Cynhaliwyd cyfres o Arddangosiadau Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn ystod y broses o ddatblygu'r Cynllun i hysbysu'r cyhoedd a cheisio eu barn. Cynhaliwyd arddangosfeydd ym mis Ebrill 2019 dros gyfnod o ddau ddiwrnod yn Neuadd Bentref Llanddewi Felfre; arddangosfa undydd yn Nhy Bloomfield, Arberth, a Neuadd y Frenhines, Arberth ym mis Mai 2019, ac arddangosfa undydd yn Neuadd y Frenhines, Arberth ym mis Rhagfyr 2019. Daeth cyfanswm o 105 o bobl i'r arddangosfeydd ym mis Ebrill, daeth 170 o bobl i'r arddangosfeydd ym mis Mai, a daeth 108 o bobl i'r arddangosfeydd ym mis Rhagfyr.

5.2. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019 ynghyd â'r opsiynau llwbr (1A, 1B, 2A a 2B), gwelliannau y gellid eu gwneud i'r datrysiaid a ffefrir (2B), a mesurau teithio llesol y gellid eu cynnwys, o bosibl, yn ystod cam asesu rhagarweiniol y Cynllun.

5.3. Cafwyd cyfanswm o 81 o ymatebion yn ystod yr Ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys 43 arolwg a gwblhawyd, 17 arolwg a gwblhawyd yn rhannol, 13 ymateb trwy e-bost ac 1 ymateb ar gopi papur. Ystyriwyd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn cyn cyhoeddi'r Llwbr a Ffefrir ym mis Rhagfyr 2019.

5.4. Cynhaliwyd Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd mis Mai a mis Ebrill 2019 cyn i'r Llwbr a Ffefrir (TR111) gael ei gyhoeddi. Cyflwynwyd y Llwbr a Ffefrir (TR111) yn Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd mis Rhagfyr 2019. Ystyriwyd materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriadau hyn wrth i'r Gorchmynion drafft gael eu datblygu.

5.5. Sefdlwyd Grŵp Cyswilt Amgylcheddol (GCA) yn ystod cyfnod datblygu dyluniad y Cynllun i dratod materion allweddol gyda Chyrrff Amgylcheddol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

5.6. Mae'r GCA yn dod â chynrychioliwyr ynghyd o Lywodraeth Cymru, Asiant Cefnfyrd De Cymru (SWTRA), Cynngor Sir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a CADW. Bwrddir y byddai'r GCA yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod cyn-adeiladu ac adeiladu.

5.7. Cyflwynwyd manylion y Cynllun i Gomiswn Dylunio Cymru a Chynngor Sir Penfro. Ystyriwyd eu sylwadau wrth ddatblygu'r Cynllun.

5.8. Ymgynghorwyd ag Ymgymerwyr Statudol ynghyd â dargyfeiriadau a gwarchod seilwaith. Cysylltwyd â thirfeddianwyr a phobl - y byddai'r Cynllun yn effeithio'n uniongyrchol ar eu heiddo neu eu mynedfeydd preifat - a rhoddwyd gwybod iddynt am fanfion y Cynllun arfaethedig.



- 4.38. Mae'r cynllun yn cydnabod y rhydwraith ffyrdd strategol, gan gynnwys y Rhwydwraith Traws-Ewropeaidd sy'n cysylltu Ewrop â Gweriniaeth Iwerddon, fel pyrth hanfodol i'r rhanbarth ar gyfer symud nwyddau a theithwyr, ac fel y llwybrau i mew/allan a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin i Dde-orllewin Cymru. Mae'n ysgogwr pwysig i'r economi ranbarthol ac mae'n cefnogi twf yn Ardal Fenter Dyffordd y Ddau Gledau yn Sir Benfro ac ardal oedd twf strategol eraill, fel Cross Hands in Sir Gaerfyrddin.
- Strategaeth Dwristiaeth De-orllewin Cymru 2004
- 4.39. Cyhoeddwyd Strategaeth Dwristiaeth De-orllewin Cymru yn 2004 gan Bartneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru, ac mae'n cyflwyno cynllun i ddarparu ffocws cynhwysol a chyffredin ynghyd â set o amcanion ar y cyd a all helpu i arwain y broses o ddatblygu a hyrwyddo twristiaeth ledled y rhanbarth yn y dyfodol. Gofynnad cyffredinol y Cynllun Strategol yw'r angen parhaus i ddod yn llai cystadleuol yn fewnol ac yn fwy cystadleuol yn allanol. Effen allweddol o hyn yw cysylltedd.
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2013
- 4.40. Mae'r angen am fuddsoddiad sylweddol yn y seilwraith trafniadaeth wedi'i gwella cyfagos Llanddewi Felfre i Benblewin wedi'i nodi o dan Bolisi GN.39 'Lwybrau Trafnidiaeth a Gwelliannau'.
- 4.41. Mae'r cynllun yn amlygu nifer o ddyraniadau tai a chyfiogaeth o fewn ac o amgylch Arberth, Clarbeston Road a Hwiffordd. Mae'r prif ardaloedd strategol ar gyfer twf wedi'u lleoli o fewn aneddiadau Hwiffordd, Aberdaugleddau, Penfro ac Abergwaun. Pan fydd y safleoedd hyn yn cael eu cyflwyno a datblygiadau'n cael eu gwireddu, byddant yn cyfrannu at lifoedd ar hyd corridor yr A40.
- 4.42. Mae Cyngor Sir Penfro wrthi ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDL12) ar gyfer 2021-2033. Disgwylir y byddar CDL12 yn cael ei fabysiadu yn hwyr yn ystod yr haf neu'r hydref 2021 (graddfa amser-ddangosol).
- 4.43. Yn y Cynllun wedi'i Adnegu, disgrifir Arberth fel tref farchnad wledig sy'n ffurfio anheddiad allweddol yn Sir Benfro. Mae gan y Dref Ganolfan Wasanaeth a swyddogaethau cyfiogaeth a thwristiaeth. Cyfeirir at Arberth hefyd fel tref manwerthu a hamdden allweddol sydd â 'chymnig manwerthu arbenigol sy'n denu ymwelwyr o ddalgyich eang'. Mae dyraniad newydd o 1.97ha o dir wedi cael ei amlygu ar gyfer cyfleuster gofal i bobl hyn oddi ar Redstone Road, ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r ffin dyrannu ar gyfer dyraniad preswyl i'r gogledd-orllewin o Arberth; mae hyn yn allweddol berthnasol i'r astudiaeth.
- Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2010
- 4.44. Yn gyffredinol, er nad yw'n hyrwyddo twf ar raddfa fawr yn yr un ffordd â CDL12 Sir Benfro, mae'r Cynllun yn cefnogi twf ehangach y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ac, yn ei dro, yn cydnabod pwysigrwydd y llwybrau ffyrdd strategol fel modd hollbwysig o gael mynediad i'r Parc. Mae'r A40 yn gweithredu fel cysylltiad allweddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin ac yn darparu cysylltiad allweddol i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

- 4.31. Yn y pen draw, trwy ddarpariaethau yn Neddft Cynllunio (Cymru) 2015, bydd Cynllun Gofodol Cymru (WSP) yn cael ei ddisodli gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) pan gaff ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r rhaglen bresennol yn awgrymu y bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2020, felly mae Cynllun Gofodol Cymru yn parhau i fod yn berthnasol i'r asesiad hwn.
- 4.32. Mae'r Cynllun wedi'i leoli yn 'Sir Bentrô – Yr Hafan', fel y'i diffinnir gan Bennod 18 Cynllun Gofodol Cymru. Y weledigaeth ar gyfer yr ardal hon yw 'rhydwai'n o gymunedau cryf a gefnogir gan economi gadarn, gynaliadwy, amrywiol sy'n ychwanegu gwerth uchel, a ategir gan amgylchedd unigryw'r Ardal, mynediad i'r môr a chyfluoedd ynni a thwristiaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol.'
- 4.33. Mae gwella cysylltiadau trafriniaeth a seilwaith economaidd wedi'i amlygu'n flaenoriaeth strategol allweddol, a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth uchod. At hynny, mae Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod bod 'cysylltiad ffordd yr A40 rhwng yr M4 a phorthladd yr Ardal wedi'i dynodi ym mlaenraglen cefnffyrdd Llywodraeth y Cynulliad. Mae gwella'n cael eu gwneud i'r A40 trwy'r cynllun ffyrdd osgoi presennol. Bydd yr angen am fuddsoddiad ychwanegol yn cael ei adolygu'n barhaus.'
- Polisi Cynllunio Cymru (FPW) (Argraffiad 10, 2018)
- 4.34. Yn nghyd-destun cynlluniau trafriniaeth, mae FPW10 yn cydnabod y gellir hyrwyddo Cymru lewyrchus trwy ddatblygu seilwaith modern a chysylltiedig, a bod angen i gymunedau sy'n cael eu creu gael eu cysylltu'n dda er mwyn iddynt fod yn gydllynol.
- 4.35. Mae FPW10 yn nodi'r rôl allweddol sydd gan seilwaith trafriniaeth fel cefnffyrdd a thraffyrdd i'w chyflawni o ran cysylltiedd cenedlaethol a rhyngwladol. Dylai mynediad at swyddi a gwasanaethau trwy deithiau byrrach, mwy effeithlon a chynaliadwy gael ei alluogi trwy'r system gynllunio; ac mae seilwaith newydd yn fodd o gyflawni hyn.
- Nodyn Cynngor Technegol 18: Trafriniaeth 2007
- 4.36. Mae TAN 18 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007) yn annog system trafriniaeth effeithlon a chynaliadwy fel gofyniad ar gyfer cymdeithas fodern. I gyflawni patrwm datblygu mwy cynaliadwy, mae'n datgan bod angen deall y rhyngweithiadau a'r cysylltiadau rhwng defnydd o dir a thrafriniaeth, a llunio strategaethau, amcanion a pholisiau integredig ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- Cynllun Trafriniaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru 2015
- 4.37. Y Cynllun Trafriniaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru, a gyhoeddwyd yn 2015, yw penllanw cydwethio rhwng Cynngor Sir Gâr, Cynngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cynngor Sir Fentro a Dinas a Sir Abertawe. Mae cyswilt agos rhwng y cydwethio hwn â mentrau ehangach o dan y cysyniad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Bydd y cynllun yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwella cysylltiedd i'r ranbarth, o'r ranbarth ac o fewn y ranbarth ar gyfer y cyfnod 2015 – 2020.

- 4.26. Cyhoeddwyd Adnewyddu'r Economi, Cyfeiriad Newydd ym mis Goffennaf 2010. Mae'n amlinellu'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae wrth ddarparu'r amodau a'r fframwaith gorau i alluogi'r sector preifat i ddfu a ffynnu. Mae Rhan 3 y ddogfen yn annog buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy, o ansawdd uchel i ategu twf economaidd. Bydd angen sicrhau bod pobl, busnesau a chymunedau wedi'u cysylltu'n dda yng Nghymru a'r tu hwnt a bod ganddynt fynediad at y cyfleoedd a'r gwasanaethau iawn lle maen nhw'n byw ac yn gweithio. Mae'n rhaid i fuddsoddwyr a busnesau brodorol allu dibynnu ar gyfathrebu, trafniadaeth, ynni a seilwaith arall sy'n angenrheidiol ar gyfer menter yn yr 21ain ganrif.
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009
- 4.27. Lanswyd Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned gyntaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2009. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r amcanion ar gyfer cyflawni nod datblygu cynaliadwy. Mae Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn diffinio datblygu cynaliadwy fel 'galluogi pawb ledled y byd i ddiwallu eu hanghenion syffaeinol a mwynhau ansawdd bywyd gwell heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.'
- Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008
- 4.28. Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn 2008 gan Lywodraeth Cymru ar y pryd, a'i phrif nod yw hyrwyddo rhydwethiau cynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd ar yr un pryd â chryfhau perfformiad economaidd a chymdeithasol y wlad. Paratowyd y strategaeth yng nghyd-destun y rhaglen Cymru'n Un, sy'n gosod agenda flaengar ar gyfer Cymru. Mae'r strategaeth yn amlinellu nifer o ganlyniadau polisi, a gyflawnir trwy flaenoriaethau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- a. Lleihau effeithiau trafniadaeth ar yr amgylchedd;
  - b. Integreiddio trafniadaeth leol;
  - c. Gwellia mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol;
  - d. Gwellia cysylltedd rhyngwladol; a
  - e. Chynyddu diogelwch.
- Blaenraglen Cefnffyrdd 2002, 2004 a 2008
- 4.29. Nod Blaenraglen Cefnffyrdd 2002 Llywodraeth Cymru oedd gwella'r amodau economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, trwy gynyddu effeithlonrwydd a hygyrchedd ym mhob ardal. Amlygwyd ffordd yr A40 Sancer i Hwlfordd yn y Flaenraglen o fewn y 'coridor strategol (deheuol) y Dwyrain – Gorllewin'.
- Cymru – Economi yn Ffynnu 2005
- 4.30. Cyhoeddwyd Cymru – Economi yn Ffynnu ym mis Tachwedd 2005 a dyma'r fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru. Prif weledigaeth y ddogfen yw creu; 'economi ffyniannus yng Nghymru sy'n cyflawni twf economaidd cryf a chynaliadwy trwy ddarparu cyfleoedd i bawb.'

4.20. Mae Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnwys bioamrywiaeth yn ei gwaith, a chyfrannodd TREBAP<sup>2</sup>) at y broses barhaus hon.

4.21. Amlinellodd TREBAP un ar ddeg o Gynlluniau Gweithredu Cynffwrdd a dau ar bymtheg o Gynlluniau Gweithredu Rhywogaeth, y mae rhai ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun. Bydd y fenter Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru yn cyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu Economaidd<sup>3</sup>, gan greu economi gynaliadwy a hyrwyddo lles economaidd, diwyllianol, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru a gwella ansawdd bywyd ei phoblogaeth.

4.22. Dros gyfnod o bum mlynedd, bydd y fenter yn cyflawni rhaglen waith a gweithgareddau fel plannu coed i wella strwythur ac ystod oed yr ardal wedi'i phlannu, a chyflwyno ardaloedd blodau gwylt neu wella amrywiaeth ardaloedd sydd eisoes yn bodoli.

Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012

4.23. Diben Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi (WILP) yw blaenoriaethu, cwmpasu a chydlynu'r broses o gyflawni buddsoddiadau seilwaith mawr Llywodraeth Cymru, ar yr un pryd â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir pobl a chymunedau yng Nghymru.

4.24. Mae Pennod 1 y Cynllun yn amlinellu nifer o flaenoriaethau buddsoddi lefel uchel, gan gynnwys: Gwella cysylltiadau trafniadaeth, yn enwedig cysylltiadau trafniadaeth rhwyg y Dwyrain a'r Gorllewin yn y Gogledd ac yn y De; Archwilio y flaenoriaeth hon ymhellach ym Mhenod 2 y Cynllun, sy'n amlinellu'r nod o sicrhau'r budd mwyaf o'r rhwydwaith ffyrdd presennol drwy waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio'n dda a gwaith uwchraddio er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn gweithredu'n fwy effeithlon drwy:

a) Flaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cyfrannu at dwt economaidd – mynd i'r atael â thagfeydd trefol a gwella ffyrdd mynediad i ardaloedd allweddol, a thrwy wella capasiti a dibynadwyedd ein llwybrau allweddol rhwyg y dwyrain a'r gorllewin.

b) Bod yn fwy ystwyth yn y ffordd rydym yn datblygu atebion i broblemau sylfaenol er mwyn mynd i'r atael â'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu bob dydd.

4.25. Yr A40 yw un o'r coridorau allweddol rhwyg y dwyrain a'r gorllewin ac mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y llwybr.

---

<sup>2</sup> Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Cefnffyrdd (TREBAP) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004b)

<sup>3</sup> Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd 2017

- 4.13. Ar 29 Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru i dynnu sylw at faint ac arwyddocâd y dystiolaeth ddiweddaraf gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawd, ac i amlygu'r protestiadau diweddar ynglŷn â'r hinsawdd ledled y Deyrnas Unedig.
- 4.14. Cyfeiriodd y cyhoeddiad at Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (a gyhoeddwyd y mis blaenorol) a datganodd fod y Cynllun hwn yn amlinellu'r polisiau a'r cynigion y bwriedir iddynt gyflawni targedau allyriadau carbon 2020. Cyfeiriodd y datganiad at y targedau a osodwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2017, gan aildatgan yr ymrwymiad i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Datganodd Llywodraeth Cymru fod y cynllun nesaf, a fydd yn gosod mesurau i gyflawni targedau lleihau allyriadau erbyn 2021-26, yn cael ei baratoi a bod rhaid iddo fynd ymhellach ac yn gyflymach.
- Symud Cymru Ymlaen 2016
- 4.15. Mae Symud Cymru Ymlaen yn amlinellu rhaglen y llywodraeth i sbarduno gwelliant yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan greu Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach ac yn egniol, yn anelu'n uchel ac yn dysgu, ac yn unedig ac yn gysylltiedig.
- 4.16. Mae'r mesurau'n cynnwys gwelliannau i'r A40 yng ngorllewin Cymru fel rhan o'i hymrwymadau 'Unedig a Chysylltiedig';
- Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2010 a'i Gynllun Ariannu 2010, 2015, 2017, 2018
- 4.17. Fe'i cyhoeddwyd yn 2015 gan Llywodraeth Cymru, ac roedd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn dilyn Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2010 i restru'r cynlluniau y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni ar draws gwahanol feysydd y polisi trafnidiaeth y mae'n gyfrifol amdanynt. Nid dogfen bolisi yw Cynllun 2015, ond mae'n darparu fframwaith o gynlluniau yn unol â nodau polisi a benwyd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008.
- 4.18. Mae cynllun i wella'r A40 rhwng Sancer a Hwlfordd wedi'i fanylu yn y cynllun o dan gyfeirnod NEW 2. Disgrifir y cynllun fel 10.8km o briffordd wedi'i gwella (cynllunad 2+1) rhwng Sancer a Hwlfordd.
- Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru 2018 a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Cefnffyrdd 2014
- 4.19. Mae Llywodraeth Cymru, sef yr Awdurdod Prifffyrdd ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru, yn uniongyrchol gyfrifol am gynnal a chadw, gwella a datblygu'r rwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd ar gyfer Cymru. O dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000, mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ystyried gwarchod bioamrywiaeth yn ei gwaiith.

- 4.6. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, ac i adeiladu a gwella'u seilwaith ar gyfer cerdded a beicio bob blyddyn. Mae'n creu dyletswyddau newydd i awdurdodau prifffyrdd ystyried angenhion cerddwyr a beicwyr a darparu'n well ar eu cyfer. Mae hefyd yn mynnu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn hyrwyddo cerdded a beicio fel dull o deithio fel bod cymunedau lleol yn dibynnu llai ar geir wrth wneud siwrmeiau byr.
- 4.7. Yng nghyd-destun Cynlluniau Ffyrdd, ceir cyflie arwyddocaol i ad-drefnu'r seilwaith presennol fel ei fod yn bodloni angenhion aneddiadau presennol a newydd yn well, ac yn hwyluso teithio llesol. Er enghraifft, gall Cynlluniau Ffyrdd osgoi fynd i'r atael â gwahanau aneddiadau ac, wrth wneud hynny, darparu cyflieoedd ar gyfer teithio llesol gan na fyddai angen i gerddwyr a beicwyr gystadlu â thraffig cerbydol trwm mwyach i wneud teithiau byr yn yr ardal leol.
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008
- 4.8. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i leihau allfriadau nwyon ty gwyrdd ledled y Deyrnas Unedig yn 2050 i lefel sydd o leiaf 80% yn is na lefel allfriadadau 1990. Mae hefyd yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod cyllidebau carbon ar gyfer cyfnodau pum mlynedd olynol ac yn paratoi cynigion a pholisiau ar gyfer bodloni'r cyllidebau carbon hynny. Mae Rhan 2 y Ddeddf yn sefydlu'r Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd.
- Deddf Prifffyrdd 1980
- 4.9. Mae'r Cynllun yn cael ei hyrwyddo a byddai'n cael ei adeiladu gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Prifffyrdd yn unol â Deddf Prifffyrdd 1980. Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Weindogion Cymru trwy gyfrwng Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 4.10. Mae Gweinidogion Cymru yn deillio awdurdod statudol i adeiladu prifffordd newydd neu i wella prifffyrdd newydd o dan adran 24 a 62 o'r Ddeddf Prifffyrdd 1980. Byddai pob pŵer arall i adeiladu'r rhan newydd o'r gefnffordd, israddio rhannau o'r gefnffordd presennol ac i gau, newid, gwella neu adeiladu prifffyrdd, hawl dramwy gyhoeddus neu mynedfa breifat etc. yn arfer drwy wneud y Gorchymyn statudol. Mae'r pwerau y mae Gweinidogion Cymru yn ddibynnol arnynt wedi'u enwi o fewn y Gorchymyn statudol sydd wedi'u cyhoeddi yn ddratt ochr yn ochr â'r Oorchymyn Ffyrdd Gortodol dratt a fyddai, os yn cael eu gwneud, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gaffael yr holl dir a'r hawliau dros dir sy'n angenrheidiol i adeiladu a gweithredu'r cynigion.
- Ffyniant i Bawb – Y Strategaeth Genedlaethol 2017
- 4.11. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei nod tymor hir o greu Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogetl, yn iach ac yn egniol, yn anelu'n uchel ac yn dysgu, ac yn unedig ac yn gysylltiedig.
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel 2019
- 4.12. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn gosod y sylfeini ar gyfer trawsnewid Cymru i fod yn genedl carbon isel ac mae'n gweithio o fewn cyd-destun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n mynnu bod Llywodraeth

- 4.3. Isod, rhoddir disgrifiad o'r prif bolisiau o safbwynt trafniadaeth, sy'n berthnasol i'r Cynllun, ar lefel y Deyrnas Unedig a lefel Cymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 4.4. Mae'r Ddeddf hon yn 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaid, amgylcheddol a diwyllianol Cymru, gyda nod cyffredinol o greu Cymru y mae pawb ohonom am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi safon o nodau llesiant ar waith, ac yn gosod dyletswydd ar gyffwrdd cyhoeddus yng Nghymru a'r rheiny a restrwyd yn y Ddeddf i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwyllianol Cymru. Er mwyn helpu i wneud hyn, mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant a meddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chydai'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagweddau cydgyssylltiedig.
- 4.5. Mae adroddiadau WeITAG 2017 yn ystyried sut byddai gwelliannau i'r A40 yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant, amanon a'r ffyrdd o weithio.
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- 12) Ffyniant i Bawb – Y Strategaeth Genedlaethol 2017;  
 13) Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel 2019;  
 14) Symud Cymru Ymlaen 2016;  
 15) Cynllun Trafniadaeth Cenedlaethol Cymru 2010 a'i Gynllun Ariannu 2015, 2017, 2018;  
 16) Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru 2018 a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Cefnffyrdd 2014;  
 17) Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012;  
 18) Adnewyddu'r Economi: Cyfiriad Newydd 2010;  
 19) Cymru'n Un: Cenedl Un Blianed 2009;  
 20) Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008;  
 21) Blaenraglen Cefnffyrdd 2002, 2004 a 2008;  
 22) Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006;  
 23) Cymru – Economi yn Ffynnu (Tachwedd 2005);  
 24) Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008);  
 25) Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, 2018)  
 26) Nodyn Cynngor Technegol 18: Trafniadaeth 2007;  
 27) Nodyn Cynngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol 2017;  
 28) Nodyn Cynngor Technegol 23: Datblygu Economaidd 2014;  
 29) Nodyn Cynngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009;  
 30) Nodyn Cynngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Litogydd 2004;  
 31) Nodyn Cynngor Technegol 11: Swm 1997;  
 32) Cynllun Trafniadaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru 2015;  
 33) Strategaeth Dwristiaeth De-orllewin Cymru 2004;  
 34) Cynllun Datblygu Lleoli Cynngor Sir Penfro 2013;  
 35) Cynllun Datblygu Lleoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2010;  
 36) Cynllun Rheoli Cychrhannau Sir Benfro 2013.

- Mae platwnio (lle ceir confis o gerbydau nwyddau trwm (HGVs) o'r porthladdoedd fferi a cherbydau amaethyddol sy'n symud yn araf sy'n defnyddio'r amryw ffyrdd ymyl a mynedfeydd ffermydd ar hyd yr A40) yn cyfrannu at amserau siwrneiau annibynnadwy pan gyfunir hynny â chyflieoedd cyfyngedig i oddiweddodd a chymysgedd o draffig lleol a thraffig HGV; ac
- Mae traffig sy'n symud yn araf yn ystod misoedd yr haf yn gwaethygu'r problemau, gyda thwristiaid yn achosi cynnydd sylweddol mewn traffig a cherbydau sy'n symud yn araf, gan gynnwys carafanau.

Problemau economaidd

- Ceir lfeleau cynhyrchiant is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y rhanbarth ac effeithiwyd yn anghymesur arno gan y dirwasgiad gan ystyried ei ddibyniaeth (o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol) ar dwristiaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, y diwydianau cyfanwerthu a manwerthu (gan gynnwys amaethyddiaeth), gweithgynhyrchu ac adeiladu;
- Mae diweithdra yn y rhanbarth ar ei uchar ym mhrit ardaloedd diwydianol Aberdaugleddau a Doc Penfro, sydd â'r lfeleau cyrhaeddad isaf, gan adlewyrchu profilliau economaidd-gymdeithasol ehangach yr ardaloedd hyn;
- Mae diffyg sefydliadau addysg uwch yn Sir Benfro yn golygu bod rhaid i ddarpar ffyfrwyr adael y Sir i astudio; ac
- Ystyrir bod Sir Benfro yn anghysbell a bod hyn yn rhwystro mewntuddsoddiad, twristiaeth a datblygiad y farchnad teithio-i'r-gwaith yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe.

**4. CYD-DESTUN POLISI**

4.1. Rhoddir adroddiad am y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer y Cynllun, o safbwynt amgylcheddol, ym Mhenod 5 y Datganiad Amgylcheddol. Amllineilir polisiau asesu testunau penodol ymhellach ac fe'u hystyri'r ym mhenodau asesu testunau y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrol 1, Penodau 7 i 16).

4.2. Yn gryno, er bod ystod eang o ddeddfwriaeth a dogfennau polisi wedi'u hystyried fel rhan o waith datblygu'r cynllun, mae'r brit ddeddfwriaeth a dogfennau polisi a ystyriwyd yn y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys:

- 1) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- 2) Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016;
- 3) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015;
- 4) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- 5) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
- 6) Rheoliadau Gwarchod Cynffinoedd a Rhywogaethau 2017;
- 7) Deddf Newid yn yr Hinsawd 2008;
- 8) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006;
- 9) Deddf Hawliau Dynol 1998;
- 10) Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd);
- 11) Deddf Prifffyrdd 1980;



Cyfeiriad dwy lôn, gyda goddiweddwyd wedi'i wahardd i'r cyfeiriad un lôn.

Cyhoeddwyd y prosiectau fel:

- Penblewin – Parc Siebets
- Llanddewi Felfre – Penblewin

3.6. Cwblhawyd y cyntaf o'r prosiectau hyn, sef Penblewin - Parc Siebets, ym mis Mawrth 2011.

3.7. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Edwina Hart AC CSTJ MBE, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ddatganiad ysgrienedig yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth. Roedd y datganiad yn cynnwys y canlynol:

*"Mae Bwrdd Ardal Fenter Dyffordd y Ddau Gledau wedi pennu y dylid rhoi blaenoriaeth i wella'r A40, ac mae'n fwrdd gen i ddatblygu ymhellach y gwelliannau a gynigwyd eisoes."*

3.8. Yn 2014, comisiynodd LIC ddiweddaried i'r gwaith a gwblhawyd yn 2004 (a'i adolygu yn 2008) er mwyn gwerthuso p'un a oedd newidiadau i amodau yn y rhanbarth yn gwarantu ymyriadau trafniadaeth ychwanegol ar hyd yr A40. Roedd hyn yn cynnwys arfarniad o'r opsiynau yng Nghroesffordd Maencoch. Yn 2017, mynegodd y rhai a fynychodd yr Arddangosta Gwybodaeth i'r Cyhoedd ynglŷn â Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin gefnogaeth i welliannau pellach i'r A40 rhwng Penblewin a Chroesffordd Maencoch.

3.10. Ym mis Awst 2018, wrth ymateb i'r cwestiyn ynglŷn â marwolaeth gyrrwr a oedd yn ymuno â'r A40 wrth Groesffordd Maencoch, rhoddodd Ysgrienedig y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC, gadarnhad ysgrienedig i'r Uwch Grwner y byddai ymchwiliadau'n cael eu cychwyn i ystyried gwella diogelwch y gyffordd a darparu mwy o gyfluoedd diogel i oddiweddwyd ar hyd yr A40, sy'n cynnwys gwelliannau wrth Groesffordd Maencoch.

3.11. Ym mis Ionawr 2019, dechreuodd Arup (gyda chymorth RML), ymchwilio i'r problemau a datblygodd ddatrys iadau effeithiol posibl i fynd i'r afael â'r problemau cysylltiedig â thrafnidiaeth ar hyd yr A40 rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar gyfer Llywodraeth Cymru. Adolygodd astudiaeth WeITAG y materion ar hyd yr A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch a phenderfynodd fod y problemau a'r amcanion yn gydnaws â rhai Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin.

3.12. Mae'r pryder ynglŷn â diogelwch rhwng Penblewin a Chroesffordd Maencoch yn arwyddocaol i'r Cynllun hwn, yn enwedig diogelwch wrth Groesffordd Maencoch. Yn ogystal, amlygodd yr astudiaeth ystod o problemau gwirioneddol a chanfyddedig. Roedd y rhain yn cynnwys materion trafniadaeth a materion economaidd ehangach fel a ganlyn:

#### Problemau trafniadaeth

- Cyfluoedd cyfyngedig ac anghyson i oddiweddwyd, sy'n arwain at amserau siwrneiau annibynnadwy, rhwystredigaeth ymhlith gyrrwr a symudiadau peryllus cysylltiedig gyda gwrthdrawiadau difrifol;

ddamweiniau ffordd difrifol. Digwyddodd damwain anghueol wrth y gyffordd yn 2018.

2.5. Mae cyflieoedd cyfnyngedig i oddiwedd yd yn arwain at ddibynadwyedd gwael o ran amser siwrniau a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr. Gall hyn arwain at symudiadau peryglus i oddiwedd yd a risg uwch o wrthdrwriadau. Mae conffio rheolaidd o gerbydau nwyddau trwm o'r porthladdoedd fferi a cherbydau amaethyddol sy'n symud yn araf yn cyfrannu at gyfnodau o blatwnio ac amserau siwrniau annibynadwy.

2.6. Mae cynydd tymhorol sydyn yn y traffig ar hyd yr A40 (yn enwedig yn ystod misoedd yr haf) yn arwain at draffig sy'n symud yn araf sy'n achosi amserau siwrniau annibynadwy, a waethygir gan gyflieoedd cyfnyngedig i oddiwedd yd. Mae'r cymysgedd o fathau o draffig sy'n defnyddio'r ffordd yn cyfrannu at amserau siwrniau annibynadwy, rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr, symudiadau peryglus a gwrthdrwriadau.

2.8. Yn gyffredinol, mae diffyg cysylltedd trafniadaeth gyhoeddus strategol yn Sir Benfro yn golygu y dibynnir ar y car preifat ar gyfer cysylltiadau rhyng-drefol.

### 3. YR ANGEN AM Y CYNLLUN

3.1. Mae'r A40 yn llwybr o bwysigrwydd strategol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, yn ogystal ag yn rhyngwladol, gan ei bod yn rhan o'r Rhwydwaith Trafniadaeth Traws-Ewropeaidd. Mae'n gwasanaethu tref sirol Hwlfordd, yr economi dwristiaeth yn ne-orllewin Cymru, a phorthladdoedd a manau cyflogaeth Aberdaugleddau ac Abergwan.

3.2. Oherwydd ei phwysigrwydd lleol a chenedlaethol, mae ardal o amgylch Aberdaugleddau a Phenfro yn ne'r sir wedi'i dynodi'n Ardal Fenter Dyffordd y Ddau Gleddau, gan ffurfio rhan o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe. Mae Dyffordd y Ddau Gleddau yn darparu rhyw 20% o ynni'r Deyrnas Unedig ac mae'n cynnwys Purfa Phenfro, tertynell storio a dosbarthu petrolem, tanciau storio ac ail-nwyeiddio Nwy Naturiol Hylifedig (LNG), depos storio olew, a gwneuthurwyr ynni adnewyddadwy blaenllaw.

3.3. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Phenfro, gyda'i olygfeydd arfordirol o ansawdd uchel ac atyniadau amwng fel Tyddewi, yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr i'r sir bob blwyddyn. Mae'r diwydiant twristiaeth yn dymhorol iawn, gyda misoedd yr haf yn denu niferoedd uchel o dwristiaid bob blwyddyn.

3.4. Er ei bod yn darparu cysylltiad strategol ag Abergwan, Aberdaugleddau ac Arfordir ehangach Sir Benfro, mae'r rhan o'r A40 rhwng Sancler a Hwlfordd yn llwybr o ansawdd cymharol wael. Fe'i disgrifiwyd yn TRFP<sup>1</sup> 2002 fel "y rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd o'r safon isaf yn y Deyrnas Unedig". Yn 2004, Comisiynodd LIC Astudiaeth o'r A40 i'r Gorllewin o Sancler i ymateb i TRFP 2002 Llywodraeth Cymru. Ar ôl cwblhau'r astudiaeth hon, datganodd y Gweinidog ei fod yn cyhoeddi Adnwdm i TRFP 2002 a oedd yn cynnwys dau bŵt Gynllun gwella'r ffordd unffrd ar gyfer yr A40 i'r gorllewin o Sancler. Byddai'r gwella'nau yn defnyddio'r cyfluniad 2+1 gan alluogi goddiwedd yd i'r

<sup>1</sup> Blaenrhaglen Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru 2002

- ACA Sir Bontro Forol,
  - ACA Safleoedd Ystlumod Sir Bentro a Llynnoedd Bosherston,
  - ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru,
  - ACA Coetiroedd Gogledd Sir Bentro.
- 1.5. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio'r cynigion, yn nodi'r prif effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd a wnaed gan ddyn a'r amgylchedd naturiol, ac yn disgrifio'r mesurau artfaethedig i osgoi, unioni neu leihau effeithiau a darparu gwelliant amgylcheddol lle bo'n berthnasol.
- 1.6. Mae adroddiad y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys pedair rhan:
- Y Crynodeb Annhechnegol
  - Cyfrol 1 – Adroddiad Aseiad Technegol
  - Cyfrol 2 – Ffigurau
  - Cyfrol 3 – Atodiadau Technegol
- 1.7. Mae'r Crynodeb Annhechnegol (NTS) yn crynhoi'r Datganiad Amgylcheddol mewn iaith annhechnegol. Cyfrol 1 yw'r prif destun, sy'n nodi manylion methodoleg a chanlyniadau'r AEA. Mae'n amlinellu ffyrdd i allu lliniaru effeithiau a nodwyd yn effeithiol. Mae Cyfrol 2 yn cynnwys set o ffigurau ategol y dylid ei darllen ochr yn ochr â Chyfrrol 1. Set o atodiadau technegol yw Cyfrol 3 a dylid darllen hon ochr yn ochr â Chyfrrol 1 hefyd.
- 1.8. Mae'r Gorchmynion drafft a'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y Cynllun hwn ar wahân i'r Gorchmynion drafft hynny ar gyfer Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin a oedd yn ddarostyngedig i Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a wnaeth ddechrau ar 10 Mawrth 2020 ac wnaeth gau ar 19 Mawrth 2020.

## 2. AMODAU PRESENOL

- 2.1. Yn gyffredinol, mae'r A40 rhwng Sanciêr a Hwlfordd yn ffordd unfwrdd 7.3m o led. Ceir chwe rhan sy'n cynnig cyfleoedd penodedig i oddiwedd, dwy tua'r dwyrain a phedair tua'r gorllewin. Mae hyn yn gyfwerth â rhyw 13% o'r cyfanswm hyd, set 32.5km, sydd ymhell islaw'r gymharëb 30% a gynghorir ar gyfer llwybr o'r math hwn. Lle mae cyfleoedd penodedig i oddiwedd i'w cael, nid ydynt wedi'u gwasgaru ar hyd yr A40 ar hyn o bryd. Fel y cyfrwy, ceir hydoedd hir i bob cyfeiriad heb unrhyw gyfleoedd diogel i oddiwedd.
- 2.2. Mae amryw fathau o gyffyrdd ar hyd y ffordd, gan gynnwys cylchannau un-lefel, croesffyrdd croesgam, cyffyrdd-T symi (gydag ynysedd ffig a hebddynt) a rhyw 200 o fynedfeydd uniongyrchol i eiddo, ffermydd a chaeau (ac eithrio'r rheiny yn Llanddewi Felfre). Mae'r rhain yn cyfrannu at faterion gweithredol ar hyd y llwybr.
- 2.3. Mae nifer o eiddo yn wnebu'r gefnffordd ac mae ganddynt fynediad uniongyrchol iddi. Mae gwledded tuag ymlaen ar y ffordd yn wael, islaw'r lleiatswm dymunol mewn manau, sy'n goiygu bod mwy o risg gwrthdrawiadau gyda cherbydau wrth y mynedfeydd uniongyrchol.
- 2.4. Mae'r gyffordd wrth Groesffordd Maencoch islaw safonau dylunio modern. Gall gwledded gwael a gosodiad cyffordd sydd islaw'r safon arwain at

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU  
(GEFFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAN (YR A40) (GWELLIANT  
PENBLEWIN I GROESFFORDD MAENCOCH)) 202-**

**DATGANIAD O RHESYMAU**

- 1. CYFLWYNIAD**
- 1.1. Gweinidogion Cymru, fel yr Awdurdod Prifffyrdd perthnasol, sy'n gyfrifol am holl gefnffyrdd Cymru. Mae'r A40 yn rhan bwysig o rwydwaith ffyrdd strategol Llywodraeth Cymru (LIC) gan mai hi yw'r prif gyswilt i dde-orllewin Cymru, ac mae'n cysylltu portladdoedd Aberdaugleddau ac Abergwan â gweddill y rwydwaith ffyrdd strategol. Mae'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T), gan ei bod yn rhan o lwybr strategol rhwng Iwerddon, De Cymru, de Lloegr, ac ymhellach i gyfandir Ewrop. Ar lefel leol, mae'r A40 yn gyswilt pwysig rhwng aneddiadau Caerffyrddin, Sancer, Hendy-gwyn ar Daf, Hwlfordd ac Abergwan. Mae'n hwyluso symudiadau traffig amaethyddol yn lleol, ac yn ystod misoedd yr haf mae'n lledaenu traffig twristiaeth ar hyd Sir Benfro.
- 1.2. Mae'r cynigion cyhoeddedig ar gyfer Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "y Cynllun") yn cynnwys:

- Y Gorchymyn Llinell a Thynnu Statws Cefnffordd drafft, wedi'i gyhoeddi yn barod, i ddarparu ar gyfer adeiladu rhan newydd o Gefnffordd a thynnu statws cefnffordd rhannau presennol o Gefnffordd.
- Y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft, wedi'i gyhoeddi yn barod, i gau rhannau o gefnffordd wedi'i disodli a chau, gwella, creu neu newid ffyrdd eraill, llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau cefyllau a mynedfeydd preifat.
- Y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, nawr wedi'i gyhoeddi, i ddarparu ar gyfer caffael tir a hawliau sydd eu hangen ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r Cynllun.

(Atgyfeiriwyd gyda'i gilydd fel "y Gorchymynion drafft")

- 1.3. Paratowyd Datganiad Amgylcheddol (ES) mewn cysylltiad â'r Gorchymynion drafft uchod ac mae ar gael i'w archwilio yn y lleoliadau a amlinellir yn rhan 10 y Datganiad o Resymau hwn. Mae'r prosiect hwn yn amodol ar Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn unol ag Adran 105A Deddf Prifffyrdd 1980, Cyfarwydddeb 2014/52/EU 2014 (a ddiwygiodd Gyfarwydddeb 2011) a Rheoliadau Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol sy'n gysylltiedig â Harbyrau, Prifffyrdd a Trafnidiaeth ) 2017.
- 1.4. Yn unol â Rheoliad 63 o Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), paratowyd Datganiad i Lywio Aseiad Pridol (SIAA) ar yr effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r Cynllun ar y safleoedd canlynol a ddynodwyd gan Ewrop ar gyfer cadwraeth natur:

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd Cleddau,